# ARFOR

## CREU GWAITH – CEFNOGI'R IAITH

Cyngor Gwynedd Council

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government



# YR HANES HYD YMA: GWEDD GYNTAF ARFOR

Cafodd ei sefydlu yn 2019, yn dilyn cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Rhoddwyd £2 miliwn i Gynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr er mwyn rhoi cynnig ar ddulliau arloesol o gefnogi'r economi yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Roedd y rhaglen yn parhau hyd at ddiwedd 2020/21.

## GWEITHGAREDDAU

- rhoi cymorth ariannol i sefydlu a datblygu busnesau, drwy becynnau ariannol a chyngor;
- mentora pobl ifanc a'u cefnogi i fentro;
- hyrwyddo a rhannu straeon cadarnhaol am lwyddiannau lleol;
- helpu busnesau i gael gafael ar offer cyfoes;
- cefnogi'r gwaith o sefydlu a datblygu metrau cymdeithasol i warchod adnoddau allweddol mewn cymunedau yng nghadarnleoedd y Gymraeg.

## CANLYNIADAU

- 154 o fusnesau wedi derbyn cymorth
- 238 o swyddi llawn-amser ac 89 o swyddi rhan-amser wedi'u creu
- 226 o swyddi wedi'u gwarchod



Gwenyn Gruffudd

# HEDDIW: AIL WEDD ARFOR


Drwy'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae £11 miliwn wedi'i sicrhau i gynnal ail wedd y rhaglen hyd at fis Mawrth 2025. Yn Sir Gâr, Gwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn y mae'r mwyafrif llethol o'r cymunedau lle mae canran uchel o'r bobl yn siarad Cymraeg – cymunedau sy'n allweddol i gynnal bywiogrwydd y Gymraeg a'i pharhad yn iaith bob dydd.

Er bod problemau economaidd y pedair sir – er enghraifft, cyflogau isel, tangyflogaeth a gweithlu sy'n crebachu – yn gyffredin i ardaloedd eraill, mae eu heffaith ar y Gymraeg yn unigryw ac yn ddifrifol.

## PWRPAS ARFOR:

Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau economaidd a fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.






Y Stad Llaeth




Cwrw Bragdy Cybi



Cain Eleri, Therapi Ceg

## AMCANION STRATEGOL

1. Creu cyfleoedd i bobl a theuluoedd ifanc (35 oed neu iau) aros yn eu cymunedau cartref neu ddychwelyd iddyn nhw. Eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa gan sicrhau bywoliaeth sy'n cwrdd â'u gobeithion.
2. Creu cymunedau mentrus. Cefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu at gadw a chynyddu cyfoeth lleol.
3. Cael mwy o'r gweithgaredd drwy gydweithio. Sefydlu ffordd o feddwl sy'n golygu dysgu-drwy-wneud, gwella o hyd a dysgu o weithgaredd mewn un ardal er mwyn ei ymestyn i ardaloedd eraill.
4. Cryfhau hunaniaeth cymunedau lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Cefnogi defnydd o'r Gymraeg a'i gwneud yn fwy amlwg, a phwysleisio'r hyn sy'n tynnu'r rhanbarth ynghyd.

## FFRYDIAU GWAITH

Bydd pum elfen i'r gwaith:

### Llwyddo yn lleol

Ehangu'r prosiect o Wynedd a Môn i'r pedair sir – sef cefnogi pobl ifanc a theuluoedd i fentro yn eu cymunedau cartref.

### Cymunedau Mentrus

Canolbwyntio ar fentrau sy'n manteisio ar rinweddau unigryw eu cymunedau (gan gynnwys y Gymraeg) ac/neu sy'n cadw mwy o gyfoeth yn lleol.

### Cronfa Her ARFOR

Ymateb i wersi o wedd gyntaf Rhaglen ARFOR: bod angen cynnig cyfle i fwy o amrywiaeth o sefydliadau gyfrannu gan sicrhau bod gweithgaredd newydd yn cael ei gomisiynu.

### Cryfhau hunaniaeth

Cryfhau hunaniaeth cymunedau lle mae canran uchel o bobl yn siarad Cymraeg, a thanio teyrngarwch trigolion lleol drwy ledaenu negeseuon cadarnhaol am eu hardal a'r gorllewin i gyd.

### Dysgu gwersi

Un o gryfderau mwyaf Rhaglen ARFOR yw sbarduno cydweithio, gwerthuso a rhannu gwybodaeth a gwersi.




Hufen ia Mon Ar Lwy




Cyhoeddwr llyfrau, Atebol



Artist Lisa EurgainTaylor

**CADWCH MEWN CYSWLLT**

www.rhaglenarfor.cymru

gwybodaeth@rhaglenarfor.cymru

ARFOR

CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH